



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
rhwng

Prifysgol Bangor, Y Deyrnas Unedig

a

Grŵp Llandrillo Menai, Y Deyrnas Unedig

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn rhwng:

- a) Prifysgol Bangor (Bangor), sefydliad ac elusen addysg uwch a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr o dan rif elusen 1141565, a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol ac sydd â'r cyfeiriad cofrestredig: Bangor, Gwynedd, LL57 2DG
- b) Grŵp Llandrillo Menai (GLIM), sefydliad addysg bellach sydd â'r cyfeiriad cofrestredig: Ffordd Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos, LL28 4HZ ("GLIM")

1. Cwmpas y Memorandwm

Gan adeiladu ar eu perthynas hirsefydlog, mae Prifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai'n ailymrwymo i'w gweledigaeth gyffredin i gael dylanwad trawsnewidiol yng Ngogledd Cymru.

Mae'r partïon yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymestyn addysg uwch hygyrch yng Ngogledd Cymru yn ogystal ag i adeiladu ar y sylfaen honno er mwyn cael effaith economaidd a chymdeithasol ehangach. Maent ill dau yn rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn y rhanbarth, yng nghyd-destun iechyd a chymdeithas, datblygu economaidd a chreu cymdeithas deg a chynaliadwy. Gan dargedu twf yn yr economi ac adferiad ar ôl newidiadau mawr fel BREXIT a phandemig y coronafeirws, bydd y partïon yn darparu cyd-destun cydlynol, integredig a bywiog ar gyfer datblygu addysg, hyfforddiant sgiliau. Gan fynd ati ar y cyd i ddefnyddio ein harbenigedd, ein gallu a'n rhagoriaeth, byddwn yn helpu i gynnal a chefnogi adferiad yr economi ranbarthol a'i datblygiad yn y dyfodol.

Trwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn mae'r partïon yn ailddatgan eu hymrwymiad i wireddu'r weledigaeth hon ac i barhau i ddarparu enghraifft dda o fanteision cydweithio rhwng addysg bellach ac addysg uwch.

Bwriad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw:

- Cydnabod llwyddiant y cydweithredu, a chydabod cyfraniad sylweddol y ddau sefydliad i economi a chymdeithas Gogledd Cymru.
- Sefydlu cyfnod newydd yn natblygiad Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru trwy ddarparu addysg, sgiliau, ymchwil ac arloesedd i'r economi a'r gweithlu rhanbarthol.
- Dathlu ac adeiladu ar lwyddiant yr adolygiad o'r ddarpariaeth gydweithredol gan gydnabod rhagoriaeth o ran sicrhau ansawdd, buddsoddi, cefnogi myfyrwyr, gwella, datblygiad proffesiynol ac ymrwymiad cadarnhaol i'r amgylchedd dysgu.

Yn benodol, bydd y partïon yn:

- o Parhau i ymrwymo i lwyddiant y portffolio eang o gyrsiau AU a ddarperir yn y rhanbarth, gan gynnal llwybrau dysgu a llwybrau mynediad cynhwysol ac amrywiol. Cydweithio i sicrhau recriwtio llwyddiannus i'r rhaglenni fel eu bod yn parhau i lwyddo, a gweithio'n greadigol i sicrhau mynediad mor llwyddiannus ac eang a phosibl i raglenni AU israddedig ac ôl-raddedig.
- o Gweithio ar y cyd i ymateb i argymhellion Adolygiad Sefydliadol 2021, gan weithio gyda'n gilydd yn rhagweithiol i gynnal diwylliant o wella'r bartneriaeth yn barhaus.
- o Ymrwymo i ddarparu profiadau rhagorol i fyfyrwyr, ansawdd a safonau rhagorol ac amgylchedd bugeiliol a chymdeithasol cyfoethog i'n myfyrwyr yn y rhanbarth. Gweithio ar y cyd gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat i gefnogi datblygiad gweithlu'r rhanbarth, hyrwyddo'r sector cyhoeddus a phreifat, darparu cyfleoedd AU sy'n gydnaws â'r galw gan gyflogwyr o ran y gweithlu a'r bylchau mewn sgiliau. Gweithio gyda diddordeb cyffredin i sicrhau ein bod yn gweithredu'n gydnaws ag anghenion cyflogwyr.
- o Cydweithio i archwilio dull mwy rhagweithiol o gydweithredu gyda sectorau allweddol fel Iechyd, Digidol, Carbon Isel, Niwclear, a datblygu a chynnal gweledigaeth weithredol a chyfleoedd newydd mewn sectorau.
- o Cydweithio yng nghyd-destun polisiau rhanbarthol, gan gefnogi a chyfrannu at raglenni fel Bargaen Twf Gogledd Cymru, a chynnal deialog gydweithredol ac ymddrin yn gadarnhaol â datblygiadau mewn polisiau rhanbarthol.
- o Gan barchu annibyniaeth ein gilydd, gweithio ar y cyd â BIPBC ac AaGIC gyda'r bwriad o weithio gyda'n gilydd yn ehangach ym maes Meddygaeth ac Iechyd, gan ddarparu cyflenwad cynaliadwy o weithwyr tra hefyd yn darparu gweithwyr newydd a gwybodaeth newydd i faes Meddygaeth ac Iechyd.

- o Gweithio gyda'n gilydd yn rhagweithiol ac yn gadarnhaol mewn perthynas â gwaith Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Llywodraeth Cymru (CTER). Ymgysylltu'n gadarnhaol â'r fframweithiau polisi allweddol a fydd yn cael eu cyflwyno, a darparu enghreifftiau o lwyddiant ein cydweithrediad sefydledig a'n hymwneud gweithredol â hwy.
- o Cefnogi'r amgylchedd dinesig lleol trwy gymryd rhan, ar y cyd pan fo hynny'n briodol, mewn cynlluniau rhanbarthol i sicrhau datblygiadau diwylliannol a chyfrannau at strategaethau diwylliannol.

Cydnabod arwyddocâd ein cwmpas daearyddol a'r cyfleoedd mae hyn yn ei gyflwyno o ran y cyd-destun dysgu a hefyd o ran asedau ac isadeiledd, a'r cyfleoedd i gydweithio a fydd yn codi o asedau a gwasanaethau o'r fath.

- o Cydweithio i sicrhau bod Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn parhau i gryfhau, gan ddatblygu ein darpariaeth a gwella ein cyfranogiad trwy:
- o Gynnal darpariaeth ddeniadol ac amrywiol sy'n denu myfyrwyr i addysg drydyddol ac yn darparu llwybrau dysgu ar draws pob lefel.
- o Darparu rhaglenni galwedigaethol ar y cyd ac yn unigol sy'n darparu gwybodaeth a sgiliau sy'n hanfodol i'r economi leol.
- o Ymgysylltu â chyflogwyr ar draws sectorau blaenoriaeth y rhanbarth i sicrhau bod sgiliau a chynlluniau arloesi'n cael eu datblygu mewn modd rhesymegol a chydlynol sy'n creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd.
- o Edrych ar ddulliau darparu newydd, croesawu gofynion sectorau, edrych ar ddarparu cyrsiau micro a thyfu'r portffolio rhan-amser a dysgu cyfunol.
- o Gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol i system Addysg Uwch ac Addysg Bellach Cymru Gyfan, darparu enghreifftiau cadarnhaol a rhannu arferion i wella perfformiad ymhellach rhwng y partneriaid ac ar draws y sector.
- o Parhau i roi pwyslais ar nodweddion, iaith a diwylliannau cymunedau ar draws Gogledd Cymru.

2. Trefniadau ar gyfer Cydweithio Pellach

Bydd y partïon yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gweithrediadau presennol y bartneriaeth yn llwyddiannus ac, wrth i gyfleoedd newydd ddatblygu, yn gweithio gan roi pwyslais penodol ar gyfathrebu, sicrhau ansawdd a ffyrdd newydd o weithio. Bydd cytundebau cydweithio pellach yn ategu'r ddealltwriaeth a nodir yn y Memorandwm hwn.

Bydd y partïon yn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu: fframwaith newydd ar gyfer cydweithio, model darparu, modelau cyfathrebu a modelau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau llwyddiant y cydweithio. Bydd y modelau hyn yn cael eu gosod mewn cytundebau cydweithio priodol a fydd yn ategu'r ddealltwriaeth a nodir yn y Memorandwm hwn.

3. Statws y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Ni fwriedir i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fod yn rhwymol yn gyfreithiol, ac ni fydd goblygiadau cyfreithiol na hawliau cyfreithiol yn codi rhwng y partïon yn sgil y Memorandwm hwn. Mae'r partïon yn llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r bwriad o gadw at eu holl rwymedigaethau.

Ni fwriedir bod unrhyw beth yn y Cytundeb Cyd-ddealltwriaeth hwn, neu ni fernir ei fod, yn sefydlu unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y partïon, yn gyfystyr â rhoi'r naill barti neu'r llall yn asiant i'r parti arall, nac yn awdurdodi'r un o'r partïon i wneud, neu gytuno i unrhyw, ymrwymïadau dros neu ar ran y parti arall.


4. Telerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ddilys am bum mlynedd o'r dyddiad llofnodi. Gellir ei adnewyddu neu'i amrywio'n ysgrifenedig trwy gydgytundeb.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ddarostyngedig i'r rheolau a'r rheoliadau sy'n llywodraethu Prifysgol Bangor a GLIM.

Llofnodwyd ar ran:

Prifysgol Bangor



Yr Athro Iwan Davies

Is-ganghellor:

Dyddiad: 06/05/2022

Llofnodwyd ar ran:

Grŵp Llandrillo Menai



Dafydd Evans

Prif Weithredwr

Dyddiad:

06/05/2022